

RHISIART FYNGLWYD, bardd (fl. 1510-70).

Enw: Rhisiart Fynglwyd
Rhiant: Iorwerth Fynglwyd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: David Myrddin Lloyd

Mab **Iorwerth Fynglwyd**, ac athro cerdd i **Ddafydd Benwyn**. Fe'i gelwir hefyd wrth yr enw Rhisiart Iorwerth. Er bod cartref ei dad yn Saint-y-Brid, yr oedd Rhisiart yn byw yn Nhir Iarlil. Canodd gywyddau serch yn ei ieuenctid, ac yna gerddi caeth o fawl ar yr hen fesurau i uchelwyr Morgannwg, Sir Gaerfyrddin, a sir Frycheiniog, yn bennaf. Ymhlith y cerddi hyn fe geir amryw i'r Dwniaid, ac yn arbennig i **Ruffudd Dwinn** o Ystrad Merthyr, a'i fab Harri. Yr oedd yn Ystrad Merthyr ar wyliau'r Sulgwyn 1531 a 1533, ac ar Ddydd Gŵyl Dewi, 1536 a 1537, ac ym mhlas Syr Siors Herbert yn Abertawe tua 1543. Dywaid **G. J. Williams** am ei waith: ' Efallai y mwyaf diddorol yw'r cywydd heddwch rhwng Syr Siors Herbert a **Mr. Edward Mawnsel**, a hefyd mai Rhisiart Fynglwyd, a orosodd **Lewys Morgannwg**, oedd yr ' olaf o feirdd pwysig y dalaith (sef Morgannwg) yng nghyfnod y canu caeth.'

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

Marwnad gan Dafydd Benwyn yn *Llyfr Hir Llanharan*, 131a

gwaith Rhisiart Fynglwyd mewn amryw o lawysgrifau yn LI.G.C., yn arbennig **Llanstephan MS 40: Poetry in praise of Gruffydd Dwinn**

Edward Lhuyd, *Archaeologia Britannica* (Oxford 1707), 263

J. Gwenogvryn Evans, *Reports on Manuscripts in the Welsh Language* (Historical Manuscripts Commission 1898â€“1910), ii, 499, etc.

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Rhisiart Iorwerth**

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q20638154**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Lloyd, D. M., (1953). RHISIART FYNGLWYD, bardd (fl. 1510-70).. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-RHIS-FYN-1510>

CC BY-SA

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government